Fel yr eglurais wrth fynychu'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, y disgwyliad cyffredinol yw y bydd is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn destun ymgynghoriad. Mae rhai pwerau i wneud

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rheoliadau yn y Bil yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol oherwydd eu natur neu am fod ymgynghori ag unigolion penodol yn arbennig o berthnasol. Byddaf yn ystyried ymhellach a fyddai'r pwerau hyn yn elwa'n benodol ar ddyletswydd ymgynghori statudol.

Mae fy ymateb i **argymhelliad 4**, ynghylch ystod o bwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 2 a 3 o'r Bil, wedi'i nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Mewn perthynas ag **argymhelliad 17**, sy'n cwestiynu a yw'r pŵer i wneud cyfarwyddyd yn adran 106 o'r Bil yn deillio o adran 81(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Deddf 1992) ac os felly, y rhesymeg dros y weithdrefn a bennir yn adran 106 mewn perthynas â rhoi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn.

Gallaf gadarnhau bod adran 106 o'r Bil yn deillio o adran 81(3) o Ddeddf 1992. Ar hyn o bryd, mae adran 81(3) o Ddeddf 1992 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo CCAUC ynghylch darparu cymorth ariannol i sefydliad yn y sector addysg uwch os ydynt o'r farn bod materion ariannol y sefydliad naill ai wedi'u camreoli, neu'n cael eu camreoli.

Mae adran 106 o'r Bil yn gwneud darpariaeth debyg sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau cymorth ariannol i'r Comisiwn ynghylch darparu neu sicrhau adnoddau ariannol o dan bwerau penodedig i berson perthnasol, os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod materion ariannol y person hwnnw wedi cael eu camreoli, neu'n cael eu camreoli.

Mae holl bwerau'r Bil wedi cael eu hystyried yn drylwyr mewn perthynas â'r modd y mae'r pŵer i gael ei arfer a gweithdrefn briodol y Senedd. Wrth wneud hynny, ystyriwyd natur unrhyw ddarpariaeth bresennol, y deilliodd y pŵer ohoni, ond nid yw'r dull hanesyddol o ymdrin â'r pŵer gwreiddiol wedi'i ddwyn ymlaen yn awtomatig os nad ystyriwyd bod gwneud hynny o reidrwydd yn briodol.

Mae'r pŵer yn adran 106 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ar faterion penodol, fel y nodir yn adran 106. O'r herwydd, mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur ehangach.

Rwyf o'r farn bod gofynion y Bil mewn perthynas â'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r cyfarwyddyd, adrodd i'r Senedd bod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi gerbron y Senedd, yn ddigonol i sicrhau hygyrchedd a thryloywder y cyfarwyddiadau a roddir i'r Comisiwn o dan adran 106.

Gan droi at **argymhelliad 20** a oedd yn gofyn am gadarnhad y byddwn yn ymgynghori â chyrrff a gaiff eu heffeithio gan adran 111 o'r Bil, sy'n darparu ar gyfer pennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaeth gymeradwy yng Nghymru, cyn i'r gofynion gael eu pennu mewn perthynas â'r adran honno.

Gallaf gadarnhau bod adran 112 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r Comisiwn a gydag unrhyw bersonau eraill y tybiant sy'n briodol cyn pennu, diwygio neu dynnu'n ôl unrhyw ofynion o dan adran 111. Rwyf o'r farn y byddai'r cyfryw bersonau eraill yn cynnwys y cyrrff hynny a gaiff eu heffeithio gan unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 111, fodd bynnag rwy'n fodlon ystyried drafftio adran 112 ac ystyried a allai fod angen gwelliant i gryfhau'r gofyniad.

Gallaf hefyd gadarnhau, mewn ymateb i **argymhelliad 21**, nad oes dyletswydd yn cael ei rhoi ar y Comisiwn yn y Bil i ymateb i ymgynghoriad o dan adran 112 o'r Bil.

Ymatebaf i'r argymhellion sy'n weddill yn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol a thrwy lythyr pellach y bwriadaf ei anfon at y Pwyllgor yn dilyn y ddadl honno.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol o ran rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jeremy Miles', with a stylized, cursive script.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog, cyn dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, roi rhagor o eglurder ynghylch y pwerau yn adrannau 32, 52(8), 55(1)(f), 59(1), 61(9)(a), 86(6), 95(2) a 101(3) o'r Bil a sut y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru

Tudalen y pecyn 32

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
32	Pŵer i ddarparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus mandadol pellach	<p>Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i bennu amodau cofrestru parhaus gorfodol yn ychwanegol at y rhai a bennir yn y Bil.</p> <p>Er nad oes bwriad ar unwaith i arfer y pŵer hwn, gan fod yr holl amodau cofrestru parhaus perthnasol cyfredol wedi'u nodi ar wyneb y Bil, rhagwelir, wrth i'r sector addysg drydyddol esblygu, y gallai fod materion rheoleiddio ychwanegol a all fod yn briodol neu'n angenrheidiol i ddarparu ar eu cyfer.</p> <p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi i ddisgwyliadau rheoleiddio o'r fath gael eu nodi'n glir a bod yn destun craffu gan y Senedd.</p> <p>Mae'r Bil yn darparu ar gyfer pŵer cyfatebol mewn perthynas â darparu amodau cofrestru cychwynol ychwanegol (adran 25(3)) ac mae'r datganiad o fwriad polisi a gyhoeddir gyda'r Bil yn nodi'r bwriad i ddefnyddio'r pŵer hwnnw.</p>
52(8)	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin fel pe bai'n gyfrifol am ddarparu cwrs.	<p>Mae adran 52(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y dylai neu na ddylai ddarparwr allanol gael ei drin fel petai'n ddarparu'r cwrs cyfan neu ran o gwrs ar ran sefydliad cofrestredig. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyfatebol o dan adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.</p> <p>Mae trefniadau partneriaeth rhwng darparwyr, fel trefniadau masnachfaint, yn aml ar ffurf newydd ac yn esblygu'n rheolaidd. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, trefniadau rhwng darparwyr addysg uwch neu rhwng prifysgolion a cholegau lle, fel y nodir yn</p>

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
		<p>adran 52(7)(b), y gall person ac eithrio darparwr cofrestredig fod yn gyfrifol am ddarparu cwrs addysg uwch cyfan neu ran ohono.</p> <p>Mewn achosion o'r fath, mae'n hollbwysig at ddibenion sicrhau ansawdd, lle y gall fod perygl o ddryswch ynghylch pa ddarparwr sydd i'w drin fel yr un sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs, bod y gyfraith yn gallu rhoi eglurder ar faterion o'r fath. Mae perygl y byddai darparu ar gyfer pob math posibl o drefniant cyfredol ar faterion o'r fath mewn deddfwriaeth sylfaenol esgor ar ddeddfwriaeth anhylaw a rhy hir a allai ddyddio hefyd, ac felly mae'n briodol bod pŵer o'r fath i ddarparu eglurder yn bodoli drwy is-ddeddfwriaeth.</p>
55(1)(f)	Pŵer i bennu addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant (y "Prif Arolygydd") eu harolygu, yn ychwanegol at addysg a hyfforddiant a nodir ar wyneb y Bil.	<p>Mae swyddogaethau'r Prif Arolygydd yn addasu dros amser yn unol â newidiadau yn y sector ôl-16.</p> <p>Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth brentisiaethau, ar lefelau is ac uwch o gymwysterau, yn llawer mwy eang heddiw nag yr oedd yn y flwyddyn 2000, sef y tro diwethaf i swyddogaethau ôl-16 y Prif Arolygydd gael eu pennu mewn deddfwriaeth. Mae prentisiaethau lefel uwch yn enwedig, yn faes lle gall swyddogaethau'r Prif Arolygydd fod yn llai clir o dan y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol, a bu hyn yn destun trafodaeth a gwaith partneriaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhwng Llywodraeth Cymru, Estyn a CCAUC.</p>
59(1)	Pŵer i roi swyddogaethau pellach i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad â'r addysg a'r hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 55(1).	<p>Beth bynnag y cytunir arno ynghylch rôl y Prif Arolygydd mewn perthynas â phrentisiaethau uwch neu unrhyw fathau eraill o addysg a hyfforddiant ôl-16 a ddaw i'r fei, mae'n bwysig bod swyddogaethau o'r fath o fewn <i>vires</i>. Y rhesymeg dros gynnal y pwerau hyn i nodi ymhellach mewn is-ddeddfwriaeth y disgrifiad o addysg y mae'n rhaid i Estyn ei harolygu a'i swyddogaethau yn hynny o beth felly yw sicrhau y gall gwaith Estyn barhau i adlewyrchu newidiadau ym mhatrwm a darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yn y dyfodol.</p>

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
61(9)(a)	<p>Pŵer i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r Prif Arolygydd am arolygiad ardal; a'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau arolygu gael eu cyhoeddi cyn diwedd cyfnod penodedig.</p>	<p>Gall y materion a'r personau sy'n berthnasol i gynnal arolygiad ardal amrywio yn dibynnu ar bolisi presennol Estyn, y Comisiwn, neu Weinidogion Cymru. Mae adran 61 yn dweud y gall Estyn, wrth gynnal arolygiad ardal, ystyried ansawdd a rheolaeth ariannol adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn ardal, gan gynnwys gwerth am arian. Wrth lunio barn o'r fath ar ansawdd neu werth am arian addysg a hyfforddiant, gall y Prif Arolygydd ofyn am wybodaeth berthnasol gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ehangach na'r rhai a nodir yn adran 61(7), megis Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Cydbwyllgorau Corfforaethol, grwpiau cyflogwyr a chynrychiolwyr, undebau llafur, cynrychiolwyr myfyrwyr a dysgwyr, neu gyrff perthnasol eraill. Mae'r pŵer hwn yn sicrhau y gellir gwneud darpariaeth ar gyfer, lle bo angen, y cyfryw wybodaeth berthnasol i'w chaffael gan y Prif Arolygydd.</p>
86(1)	<p>Pŵer i bennu cwrs addysg uwch penodol neu ddisgrifiad o gwrs addysg uwch y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas ag ef.</p>	<p>Y bwriad yw defnyddio'r pŵer hwn i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth addysg uwch pe bai angen. Gall bylchau yn y ddarpariaeth ddeillio o'r ffaith bod prinder sefydliadau penodol (h.y. darparwyr a gofrestrwyd mewn categori a nodwyd mewn rheoliadau a wnaed dan adran 85(3)) yn gallu diwallu angen a nodwyd. Er enghraifft, yr angen i ddarparu cwrs arbenigol yng Nghymru neu gwrs i'w ddilyn gan nifer fach o fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru, ac na fydd o bosibl yn gost-effeithiol i sefydliadau penodol ei ddarparu.</p> <p>Hefyd, mae rhai cyrsiau sy'n is na lefel gradd sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol ar lefelau 4 a 5 ar y fframwaith cymwysterau yn cael eu hariannu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a'u darparu gan sefydliadau Addysg Bellach. Gall cyrsiau o'r fath fod yn berthnasol i wella rhagolygon cyflogaeth, ailsgilio neu fodloni safonau diwydiant neu sector-benodol.</p>

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
95(2)	Pŵer i wneud amod mai dim ond at ddibenion penodedig ar gyfer addysg a hyfforddiant pellach y gellir sicrhau cymorth ariannol dan adran 94(1)(a) neu (b) i ddarparwyr sy'n gofrestredig mewn categorïau penodol. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau i gyrsiau neu hyfforddiant penodedig neu i ddisgrifiadau penodedig o gyrsiau o'r fath fod yn gofrestredig.	Er nad yw'n bolisi gan y llywodraeth i greu unrhyw gategorïau cofrestru ar gyfer darparwyr prentisiaethau, addysg bellach neu hyfforddiant yn y tymor byr, mae'r Bil wedi'i ddrafftio yn y fath fodd fel y gellir ehangu'r trefniadau rheoleiddio fel y'u nodir yn y Bil dros amser i gynnwys categorïau eraill heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol bellach.
101(3)	Pŵer i wneud amod na chaiff y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas â gwariant sy'n gysylltiedig â darparu prentisiaeth Gymreig gymeradwy ac eithrio i ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru mewn categorïau a bennir yn y rheoliadau.	



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

17 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael).

Mewn ymateb i Argymhelliad 1, sef:

“Cyn i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol gael ei chynnal yn y Senedd, dylai'r Dirprwy Weinidog rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ddarpariaeth pŵer cydredol sydd wedi'i chynnwys yng nghymal 1 o'r Bil.”

Rwyf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf amdano yn fy llythyr dyddiedig 16 Mawrth 2022 at y Llywydd, ac mae copi ohono wedi'i ddarparu ar eich cyfer.

Yn gywir,

Dawn Bowden AS/MS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NS

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 36
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy ebost: Llywydd@senedd.wales

16 Mawrth 2022

Annwyl Elin,

Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 10 Rhagfyr 2021 ynghylch y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Diogelu rhag Ymafael) ("y Bil") cedwais y penderfyniad ynghylch a ddylid argymhell cydsyniad i'r ddarpariaeth pŵer cydamserol a gynhwysir yng Nghymal 1(2) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cwestiynu ei effaith ar bwerau'r Senedd i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol. O'r herwydd, roedd yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydamserol.

Yn unol â'n dull polisi, gwnaed nifer o ymdrechion ar lefel swyddogol a gweinidogol (llythyr gweinidogol dyddiedig 25 Ionawr 2022 sydd ar gael ar gais) i ofyn am ddiwygiad i'r Bil, i gynnwys darpariaeth a fyddai'n darparu eithriad o gymhwysio paragraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd hwn yn gais cymharol syml ac mae nifer o Filiau diweddar y DU wedi cynnwys y cynnig hwn. Gwrthodwyd y cais.

Felly, ysgrifennaf atoch i ddiweddarau'r Senedd bod Llywodraeth y DU, yn anffodus ar 28 Ionawr, wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adroddiad Tŷ'r Cyffredin a oedd yn ceisio dileu Cymru o'r Bil. Cytunodd Tŷ'r Cyffredin ar y gwelliannau hyn ac mae'n rhan o'r Bil sydd bellach yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Cynhaliwyd darlleniad cyntaf Yr Arglwyddi ar 31 Ionawr, gydag Ail darlleniad yr Arglwyddi wedi'i drefnu ar gyfer 18 Mawrth 2022. O ganlyniad, nid yw'r Bil bellach yn cynnwys darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NS

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 37
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr wyf yn siomedig â dull Gweithredu Llywodraeth y DU. Mae effeithiau posibl dileu Cymru o'r Bil yn cynnwys:

1. Efallai na fydd arddangosfeydd teithiol y DU yn gallu cael eu harddangos yng Nghymru
2. Os arddangosir arddangosfeydd teithiol yn y DU, efallai na fydd rhai eitemau o dramor yn cael eu cynnwys yn yr arddangosfa yn ystod ei harhosiad yng Nghymru, gan arwain at arddangosfa o ansawdd is yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill
3. Efallai na fydd amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol o rai gwledydd yn benthyg arteffactau i leoliadau Cymru
4. Posibilrwydd o niweidio enw da os ymafaelir mewn eitem sydd ar fenthyg i leoliad yng Nghymru oherwydd diffyg amddiffyniad.

Ar hyn o bryd, o dan adran 134 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 ("Deddf 2007"), mae gwrthrychau diwylliannol ar fenthyg o dramor i amgueddfeydd ac orielau'r DU a gymeradwywyd o dan Ddeddf 2007 yn cael eu diogelu rhag ymafaeliad dan orchymyn y llys am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y daw'r gwrthrych i mewn i'r DU. Mewn egwyddor, bydd eitemau sydd ar fenthyg i Gymru yn dal i gael eu diogelu o dan y darpariaethau hyn, ond ar adeg ysgrifennu nid oes unrhyw sefydliadau Cymreig cymeradwy ar hyn o bryd sy'n gallu cynnig amddiffyniadau o'r fath.

Mae'r mater hwn wedi tynnu sylw'n glir at yr angen i gynnwys llywodraethau datganoledig yn gynnar yng nghamau drafftio unrhyw Fil ledled y DU. Pwysleisiwyd hyn i swyddogion Llywodraeth y DU.

Credaf fod manteision i Gymru gael ei chynnwys yn y Bil ac rwyf eisoes wedi nodi'r rhain yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Gan na fydd hyn yn digwydd mwyach, rydym yn bwriadu archwilio opsiynau amgen i Gymru. Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd byddwn yn ymgynghori â'r sectorau ac yn ystyried yr angen am ddeddfwriaeth sy'n benodol i Gymru ar hyn a materion eraill sy'n ymwneud â gwrthrychau diwylliannol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir



Dawn Bowden AS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.irranca-davies@senedd.wales

3 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Chwefror 2022 ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) (MCDA (Rhif 2)) ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) ('y Bil').

Nododd eich llythyr fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ('y Pwyllgor') wedi ystyried MCDA (Rhif 2) mewn cyfarfod ar 7 Chwefror, ac ym marn y Pwyllgor roedd gwybodaeth ar goll ynddo ac roedd diffyg eglurder. Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- a) Nid yw'n glir pa ddarpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil ac Atodlenni 1 i 4 y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.
- b) Nid yw'n esbonio'r darpariaethau yn Rhan 1 nac Atodlenni 1 i 4 yn fanwl.
- c) Roedd y Pwyllgor yn ansicr ynghylch y rhifau a ddefnyddiwyd ym Memorandwm Rhif 2 i nodi cymalau perthnasol yn y Bil.

Ymateb

Mae cydsyniad y Senedd yn ofynnol ar gyfer y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil, ac Atodlenni 1 i 4 (fel y'u diwygiwyd). Er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn eich llythyr ac i roi eglurder llwyr i'ch Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd, rwyf heddiw wedi gosod fersiwn ddiwygiedig o'r MCDA (Rhif 2). Mae'r MCDA diwygiedig (Rhif 2), yn esbonio'r darpariaethau hyn ac mae hefyd yn rhoi rhagor o fanylion mewn perthynas â'r gwelliannau i Rannau 2, 3, 4 a 5 o'r Bil.

Er gwybodaeth, gyda'r llythyr hwn, rwyf hefyd yn amgáu tabl sy'n nodi cymalau'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac fel y'i diwygiwyd bellach. Rwy'n gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi ystyried MCDA (Rhif 2). Mae rhifau'r cymalau yn y fersiwn ddiwygiedig o MCDA (Rhif 2) a osodwyd heddiw yn gyson â'r fersiwn gyfredol o'r Bil a gyhoeddwyd ar 18 Tachwedd 2021.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau eglurder llwyr, mae'r fersiwn flaenorol o MCDA (Rhif 2) a osodwyd ar 7 Ionawr wedi'i thynnu'n ôl a'i disodli gan y MCDA (Rhif 2) a osodwyd heddiw.

Mae'r MCDA (Rhif 2) diwygiedig yn nodi gwelliannau a wnaed i'r Bil, fel yr adlewyrchir yn y fersiwn a ailargraffwyd ar 18 Tachwedd 2021, ac mae hefyd yn cyfeirio at y mater a gwmpesir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a osodwyd ar 22 Mehefin 2021 mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil ar boeni da byw.

Mae Gweinidogion DEFRA wedi gwrthod fy nghais i ddiwygio Rhan 2 o'r Bil i gynnwys Gweinidogion Cymru ar y sail eu bod o'r farn bod y mater wedi'i gadw yn ôl i Senedd y DU. Mae DEFRA yn ystyried bod y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â chŵn peryglus, neu gŵn sydd allan o reolaeth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r farn hon.

Gan gydnabod bod "cŵn peryglus" yn fater a gedwir yn ôl, rwy'n dal i aros am ymateb gan Weinidog DEFRA ynghylch pam eu bod yn ystyried na allant roi pwerau yn y Bil mewn perthynas â'r diffiniad o dda byw sydd wedi'i ddatganoli i Gymru. Os na fydd cytundeb i ddiwygio'r Bil yn dod i law, mae'n bosibl y byddaf yn argymhell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad "yn rhannol" ar gyfer Rhan 2 o'r Bil. Cyfeirir at y mater hwn yn y MCDA (Rhif 2) newydd er gwybodaeth i'ch Pwyllgor.

Cofion,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

<u>FEL A GYFLWYNWYD</u> (8 Mehefin 2021)		<u>FEL Y'I DIWYGIWYD</u> (18 Tachwedd 2021)	
Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)			
RHAN 1			
PRIMATIAID			
PENNOD 1			
CADW PRIMATIAID			
<i>Gofynion trwyddedu</i>			
1	Gwaharddiad ar gadw primatiaid heb drwydded	1	
<i>Trwyddedau primatiaid: cyflwyniad</i>			
2	Trwyddedau primatiaid	2	
3	Safonau trwyddedu ac unrhyw ofynion eraill	3	
<i>Trwyddedau primatiaid: gweithredu</i>			
4	Ceisiadau	4	
5	Penderfynu ar geisiadau	5	
6	Amodau	6	
7	Amrywio ac ildio	7	
8	Adnewyddu	8	
9	Marwolaeth deiliad trwydded	9	
<i>Archwiliadau a ffioedd yn gysylltiedig â thrwyddedau primatiaid</i>			
10	Archwilio mangroedd trwyddedig	10	
11	Ffioedd	11	
<i>Gorfodi trwyddedau primatiaid</i>			
12	Troseddau	12	
13	Hysbysiadau cywiro	13	
14	Dirymu etc trwydded	14	
<i>Cadw primatiaid heb drwydded primatiaid</i>			
15	Cyfarwyddiadau	15	
16	Fforffedu	16	
PENNOD 2			
GWERTHU A BRIDIO PRIMATIAID			
17	Gwerthu primatiaid i bersonau didrwydded	17	
18	Bridio primatiaid	18	

PENNOD 3		
ATEGOL A CHYFFREDINOL		
<i>Pwerau Mynediad</i>		
19	Pwerau mynediad	19
<i>Trosolwg o swyddogaethau awdurdod lleol</i>		
20	Canllawiau	20
21	Gwybodaeth	21
<i>Cyffredinol</i>		
22	Pwer i ymestyn Rhan 1	22
23	Rheoliadau o dan Ran 1	
24	Ystyr "cadw"	23
25	Dehongliad cyffredinol	24
RHAN 2		
CŴN SY'N YMOSOD AR DDA BYW NEU'N EU POENI		
<i>Ymosod ar dda byw neu eu poeni</i>		
26	Trosedd ble y mae ci yn ymosod ar dda byw neu'n eu poeni	25
<i>Pwerau cyn euogfarnu</i>		
27	Atafaelu a chadw cŵn	26
28	Casglu samplau ac argraffau	27
29	Pŵer ynad heddwch i awdurdodi mynediad a chwiliad	28
<i>Gorchymion ar gael ar euogfarn ac ati</i>		
30	Gorchymyn rheoli ar euogfarn o dan adran 26	
	Gorchymyn rheoli ar euogfarn o dan adran 25	29
31	Gorchymyn difrodi ar euogfarn o dan adran 26	
	Gorchymyn difrodi ar euogfarn o dan adran 25	30
32	Gorchymyn anghymhwysu ar euogfarn o dan adran 26 neu orchymyn torri rheolau	
	Gorchymyn anghymhwysu ar euogfarn o dan adran 25 neu orchymyn torri rheolau	31
33	Atafaelu a gwaredu cŵn mewn cysylltiad â gorchymyn anghymhwysu	32
34	Terfynu gorchymyn anghymhwysu	33
35	Adrannau 31 a 33: ategol	
	Adrannau 30 a 32: ategol	34

36	Gorchmynion rheoli, dinistrio ac anghymhwysu: apeliadau	35
Cyffredinol		
37	Cymhwyso i'r Goron	36
38	Rheoliadau o dan Ran 2	
39	Ystyr "poeni da byw"	37
40	Dehongliad cyffredinol	38
41	Diddymu Deddf 1953 yng Nghymru a Lloegr	39
RHAN 3		
DARPARIAETHAU ERAILL AM ANIFEILIAID A GEDWIR		DARPARIAETHAU ERAILL AM ANIFEILIAID A GEDWIR ETC
Allforio da byw		
42	Gwahardd allforio da byw i'w lladd ac ati	40
43	Pŵer i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorfodi adran 42	
	Pŵer i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorfodi adran 40	41
Lles anifeiliaid a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir		
44	Pwerau i ddiwygio neu ddirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir	
	Pwerau i ddiwygio neu ddirymu cyfraith yr UE a ddargedwir	42
Cymeryd anifeiliaid anwes		
	Cymeryd ci heb awdurdod cyfreithiol ac ati	43
	Pŵerau i ymestyn adran 43	44
Mewnforio cŵn, cathod a ffuredau		
45	Gostyngiad yn y terfyn ar symud cŵn, cathod a ffuredau yn anfasnachol	45
46	Pwerau sy'n ymwneud â mewnforio cŵn, cathod a ffuredau penodol	46
Swau		
47	Swau	47
Cyffredinol		Amrywiol a Chyffredinol
	Deddf Lles Anifeiliaid 2006: mân ddiwygiadau	48
48	Ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol" a "deddfiad"	49
49	Rheoliadau o dan Rhan 3	
RHAN 4		

CYFFREDINOL		
50	Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol	50
	Swyddogaethau cydamserol yng Nghymru	51
	Rheoliadau	52
51	Cychwyn	53
52	Graddau	54
53	Teitl byr	55
Atodlen 1	Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â primatiaid	Atodlen 1
Atodlen 2	Troseddau sy'n ymwneud â primatiaid: hysbysiadau cosb benodedig	Atodlen 2
Atodlen 3	Penderfyniadau sy'n ymwneud â blaenoriaethau: sylwadau ac apeliadau	Atodlen 3
Atodlen 4	Pwerau mynediad sy'n ymwneud â primatiaid	Atodlen 4
Atodlen 5	Swau	Atodlen 5

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

Y Bil Cymwysterau Proffesiynol

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Cymwysterau Proffesiynol ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mai 2021. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 17 Mehefin a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 6 Rhagfyr. Cynhaliwyd trafodaethau ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 5 Hydref a 15 Chwefror 2022. Ar y ddau achlysur, gwrthododd y Senedd ei chydsyniad i ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gael ei chynnwys yn y Bil.
3. Ar 22 Chwefror, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddau welliant i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r gwelliannau'n codi nifer o faterion cyfansoddiadol cymhleth, ac mae'r gwaith o'u dadansoddi wedi arwain at oedi cyn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn. Derbyniwyd y gwelliannau hyn yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 14 Mawrth, ac maent i'w gweld yn : [Gwelliannau](#)
4. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Bil gan Dŷ'r Cyffredin ar 18 Tachwedd 2021. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, i'w weld yn: [Y Bil Cymwysterau Proffesiynol](#).

Amcan(ion) Polisi

5. Nodir amcanion polisi Llywodraeth y DU yn y Datganiad Polisi y gellir ei weld yn: <https://www.gov.uk/government/publications/recognition-of-professional-qualifications-and-regulation-of-professions-policy-statement>
6. I grynhoi, mae Llywodraeth y DU yn cynnig fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a rheoleiddio proffesiynau. Bwriad y Bil yw dirymu a disodli'r system bresennol ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a oedd yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE. Mae'r Bil yn creu fframwaith i'w gwneud yn bosibl cydnabod cymwysterau proffesiynol tramor yn y DU.

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

8. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynir, yn cynnwys darpariaethau sy'n:
- Dod â'r system dros dro ar gyfer cymwysterau proffesiynol sy'n deillio o aelodaeth y DU o'r UE (Cymalau 5 a 6) i ben.
 - Creu fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a phrofiad o wledydd tramor gan broffesiynau yn y DU, neu mewn rhan o'r DU, er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion y gwasanaethau a ddarperir gan y proffesiynau hynny. (Cymalau 1 a 2)
 - Galluogi'r Llywodraeth i weithredu cytundebau rhyngwladol neu rannau o gytundebau rhyngwladol y mae'r DU yn eu llunio â phartneriaid i'r graddau y maent yn ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol. (Cymal 3)
 - Galluogi'r Llywodraeth i roi set gyson o bwerau i reoleiddwyr er mwyn iddynt allu llunio cytundebau â rheoleiddwyr tramor i gydnabod cymwysterau proffesiynol. (Cymal 4)
 - Cynnal 'Canolfan Gymorth' ddynodedig y bydd yn rhaid i reoleiddwyr gydweithredu â hi, er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd. (Cymal 7)
 - Ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr yn y DU roi gwybodaeth benodol i reoleiddwyr tramor lle mae gan unigolyn yr hawl, neu lle mae wedi bod â'r hawl, i ymarfer y proffesiwn hwnnw yn y DU, neu mewn rhan o'r DU, a'i fod yn ceisio'r hawl i ymarfer dramor. (Cymal 10)
 - Ei gwneud yn ofynnol i broffesiynau ym mhob rhan o'r DU gyhoeddi gwybodaeth am ofynion mynediad ac ymarfer eu proffesiwn. (Cymal 8)
 - Ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr yn y DU, os gofynnir iddynt wneud hynny, roi gwybodaeth benodol i reoleiddwyr cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU. (Cymal 9)
 - Diwygio Deddf Penseiri 1997 er mwyn caniatáu system gydnabod newydd ar gyfer penseiri, ochr yn ochr ag addasiadau i drefniadau gweinyddu'r Bwrdd Cofrestru Penseiri er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd. (Cymal 11)

Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

9. Gosodais Femorandwm Rhif 2 ar 6 Rhagfyr 2021, ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno tri gwelliant ar 2 Tachwedd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cadarnhaodd Memorandwm Rhif 2 fy mod yn parhau i bryderu am y pwerau cydredol yn y Bil, ac nad oeddwn mewn sefyllfa i argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad oni bai bod y Bil yn cael ei ddiwygio'n sylweddol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.
10. Rwy'n parhau i bryderu bod pwerau cydredol i wneud rheoliadau yn dal i fod yn y Bil, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 32 i 37 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cychwynnol a osodwyd ar 17 Mehefin 2021.

Sut mae'r memorandwm atodol hwn yn wahanol i Femorandwm Rhif 2

11. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud gwelliant i fewnosod cymal newydd yn y Bil, a gwelliant i fewnosod is-gymal ychwanegol, fel y cytunwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 14 Mawrth. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn nodi fy safbwynt ar y gwelliannau hyn.

Gwelliannau ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a'r ail, y ceisir cydsyniad iddynt yn awr

Cymal Newydd - "Consultation with devolved authorities"

12. Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori ag awdurdodau sydd wedi'u datganoli cyn gwneud rheoliadau o dan y Bil sy'n cynnwys darpariaeth y gallai'r awdurdodau datganoledig ei gwneud o dan y Bil. Mae'r gwelliant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn gwneud y rheoliadau. Rhaid i'r adroddiad gynnwys disgrifiad o'r broses a ddilynwyd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgynghori, gan gynnwys disgrifiad o unrhyw gytundeb, gwrthwynebiad neu safbwyntiau eraill a fynegwyd fel rhan o'r broses honno, ac esboniad ynghylch a yw safbwyntiau o'r fath wedi'u hystyried yn y rheoliadau a sut y gwnaed hynny (gan gynnwys, mewn achos lle bo'r Ysgrifennydd Gwladol/Arglwydd Ganghellor yn cynnig gwneud y rheoliadau er gwaethaf gwrthwynebiad, esboniad o'r rhesymau dros wneud hynny).

Safbwynt Llywodraeth Cymru

13. Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y Bil sy'n cynnwys darpariaeth y gallai Gweinidogion Cymru eu hunain ei gwneud o dan y Bil, a chyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad.
14. Nid yw'r gwelliant '*consult plus*' yn diogelu'r setliad datganoli yn ddigonol, gan fod yr Ysgrifennydd Gwladol/Arglwydd Ganghellor yn gallu diystyru unrhyw wrthwynebiad a godir gan Weinidogion Cymru yn ystod unrhyw ymgynghoriad o'r fath ac, yn y pen draw, ddeddfu fel y gwêl Llywodraeth y DU yn dda.

Argymhelliad

15. Rwy'n gwrthwynebu'r cymal newydd hwn oherwydd, er gwaethaf fy ngwrthwynebiad parhaus, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod gwneud gwelliant i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Rwy'n argymhell, felly, fod cydsyniad deddfwriaethol y Senedd i'r cymal newydd hwn, sy'n ymwneud â'r gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori wrth ddefnyddio pwerau cydredol i wneud rheoliadau o dan gymalau 1, 3 a 4 o'r Bil, yn cael ei atal.

Is-gymal 16 (7):

16. Mae'r gwelliant yn creu eithriad penodol i'r gofyniad am gydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

17. Mae'r gwelliant i ddarparu eithriad penodol i'r gofyniad am gydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn golygu nad oes angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn i Senedd Cymru allu dileu'r pwerau sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor o dan y Bil i wneud rheoliadau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
18. Defnyddiwyd y ddarpariaeth eithrio er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch y cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn nifer o Ddeddfau Senedd y DU, gan ddechrau gyda Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
19. Mae ychwanegu'r ddarpariaeth eithrio yn y Bil hwn i'w groesawu, er y dylai fod wedi ymddangos yn y Bil pan gychwynnodd ei daith drwy Senedd y DU. Mae cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil yn mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o dan y Bil mewn perthynas â'r proffesiynau hynny y mae'r gwaith o'u rheoleiddio wedi'i ddatganoli ac sy'n cael eu rheoleiddio ar wahân yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'n dal i fod angen Bil Senedd er mwyn dileu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol.
20. Mae graddau'r pwerau cydredol yn y Bil hwn, a bwriad Llywodraeth y DU i ddiystyru Confensiwn Sewel a bwrw ymlaen â'r Bil er gwaethaf absenoldeb cydsyniad deddfwriaethol unrhyw un o'r Llywodraethau Datganoledig, yn parhau i fod yn bryder difrifol.

Argymhelliad

21. Rwyf wedi ei gwneud yn glir i Lywodraeth y DU fod yn rhaid diwygio'r Bil hwn i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU sicrhau cydsyniad y Llywodraethau Datganoledig cyn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig.

Er fy mod yn croesawu'r gwelliant hwn i'r Bil, nid yw'n mynd yn ddigon pell i leddfu fy mhryderon sylweddol ynghylch graddau'r pwerau cydredol sydd yn y Bil. Rwy'n argymhell, felly, y dylid parhau i atal cydsyniad deddfwriaethol y Senedd i gymal 16, fel y'i diwygiwyd.

Goblygiadau ariannol

22. Mae'r Bil yn ei gwneud yn bosibl i ddeddfwriaeth arall gael ei gwneud yn bennaf ac, felly, nid yw, yn ddo'i hun, yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol i Lywodraeth Cymru.

Casgliad

23. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymal ac is-gymal 16 (7) newydd y Bil.
24. Ni allaf argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau hyn gael eu cynnwys yn y Bil ar sail y gwelliannau a gyflwynwyd hyd yma. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau'r Bil ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
16 Mawrth 2022

**Atodiad 1 – Gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 22 Chwefror 2022
i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 14 Mawrth**

Cymal Newydd - "Consultation with devolved authorities"

- (1) *Before making regulations under this Act, the Secretary of State or the Lord Chancellor must consult—*
- (a) *the Welsh Ministers, to the extent that the regulations contain provision which could also be made by the Welsh Ministers by virtue of section 16(2) (ignoring any requirement for the consent of a Minister of the Crown under section 16(5));*
 - (b) *the Scottish Ministers, to the extent that the regulations contain provision which could also be made by the Scottish Ministers by virtue of section 16(3);*
 - (c) *a Northern Ireland department, to the extent that the regulations contain provision which could also be made by a Northern Ireland department by virtue of section 16(4).*
- (2) *The Northern Ireland department which is to be consulted in accordance with subsection (1)(c) is such Northern Ireland department as the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor considers appropriate having regard to the provision which is to be contained in the regulations concerned.*
- (3) *Before making regulations under this Act in relation to which the Secretary of State or the Lord Chancellor has consulted a devolved authority (or more than one devolved authority) in accordance with subsection (1), the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor must publish a report on the consultation.*
- (4) *But the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor may not publish the report unless either—*
- (a) *the devolved authority concerned (or, if more than one, each of them) has agreed to the description included in the report for the purposes of subsection (5)(a), or*
 - (b) *there is no such agreement but the period of 30 days, beginning with the day on which a draft of the report was first sent to the devolved authority concerned (or, if more than one, the last of them), has expired.*
- (5) *The report on the consultation must include—*
- (a) *a description of—*
 - (i) *the process undertaken in order to comply with subsection (1), and*
 - (ii) *any agreement, objection or other views expressed as part of that process by the devolved authority (or devolved authorities) concerned, and*
 - (b) *an explanation of whether and how such views have been taken into account in the regulations (including, in a case where the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor proposes to make the regulations despite an objection, an explanation of the reasons for doing*

so).

(6) *The duty to consult in subsection (1) does not apply in relation to any revision of the regulations which arises from the consultation; and, for the purposes of subsection (4)(b), the draft report need not be identical to the published report for the period of 30 days to begin.*

(7) *In this section “devolved authority” means the Scottish Ministers, the Welsh Ministers or a Northern Ireland department.”*

Is-gymal 16 (7):

(7) In Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006 (general restrictions on legislative competence of Senedd Cymru) in paragraph 11(6)(b) (exceptions to restrictions relating to Ministers of the Crown)—
(a) omit the “or” at the end of paragraph (vi), and
(b) after paragraph (vii) insert “; or
(viii) the Professional Qualifications Act 2022”.



Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomi@senedd.cymru

17 Mawrth 2022

Annwyl Huw a Paul

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgorau bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dau welliant i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol ar 22 Chwefror y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 14 Mawrth.

Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a ddoe gosodais [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\)](#) gerbron y Senedd.

Cymal Newydd – “Consultation with devolved authorities”

Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori ag awdurdodau sydd wedi'u datganoli cyn gwneud rheoliadau o dan y Bil sy'n cynnwys darpariaeth y gallai'r awdurdodau datganoledig ei gwneud o dan y Bil. Mae'r gwelliant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn gwneud y rheoliadau. Rhaid i'r adroddiad gynnwys disgrifiad o'r broses a ddilynwyd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgynghori, gan gynnwys disgrifiad o unrhyw gytundeb, gwrthwynebiad neu safbwyntiau eraill a fynegwyd fel rhan o'r broses honno, ac esboniad ynghylch a yw safbwyntiau o'r fath wedi'u hystyried yn y rheoliadau a sut y gwnaed hynny (gan gynnwys, mewn achos lle bo'r Ysgrifennydd Gwladol/Arglwydd Ganghellor yn cynnig gwneud y rheoliadau er gwaethaf gwrthwynebiad, esboniad o'r rhesymau dros wneud hynny).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 138
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y Bil sy'n cynnwys darpariaeth y gallai Gweinidogion Cymru eu hunain ei gwneud o dan y Bil, a chyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Nid yw'r gwelliant '*consult plus*' yn diogelu'r setliad datganoli yn ddigonol, gan fod yr Ysgrifennydd Gwladol/Arglwydd Ganghellor yn gallu diystyru unrhyw wrthwynebiad a godir gan Weinidogion Cymru yn ystod unrhyw ymgynghoriad o'r fath ac, yn y pen draw, ddeddfu fel y gwêl Llywodraeth y DU yn dda.

Is-gymal 16 (7)

Mae'r gwelliant yn creu eithriad penodol i'r gofyniad am gydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwelliant i ddarparu eithriad penodol i'r gofyniad am gydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn golygu nad oes angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn i Senedd Cymru allu dileu'r pwerau sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor o dan y Bil i wneud rheoliadau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Defnyddiwyd y ddarpariaeth eithrio er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn nifer o Ddeddfau Senedd y DU, gan ddechrau gyda Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae ychwanegu'r ddarpariaeth eithrio yn y Bil hwn i'w groesawu, er y dylai fod wedi ymddangos yn y Bil pan gychwynnodd ei daith drwy Senedd y DU. Mae cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil yn mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o dan y Bil mewn perthynas â'r proffesiynau hynny y mae'r gwaith o'u rheoleiddio wedi'i ddatganoli ac sy'n cael eu rheoleiddio ar wahân yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'n dal i fod angen Bil Senedd er mwyn dileu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae graddau'r pwerau cydredol yn y Bil hwn, a bwriad Llywodraeth y DU i ddiystyru Confensiwn Sewel a bwrw ymlaen â'r Bil er gwaethaf absenoldeb cydsyniad deddfwriaethol unrhyw un o'r Llywodraethau Datganoledig, yn parhau i fod yn bryder difrifol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Nid yw'r gwelliannau yn mynd yn ddigon pell i leddfu fy mhryderon sylweddol ynghylch graddau'r pwerau cydredol sydd yn y Bil. Ni allaf argymhell, felly, bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau sy'n cael eu cynnwys yn y Bil.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol


Fel y gwyddoch, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, "fel rheol", o fewn dwy wythnos ar ôl i welliannau gan Lywodraeth y DU gael eu cyflwyno, yn yr achos hwn erbyn 8 Mawrth. Mae'r gwelliannau'n codi nifer o faterion cyfansoddiadol cymhleth, ac mae'r gwaith o'u dadansoddi wedi arwain at oedi cyn gosod y Memorandwm hwn.

Er ein bod yn parhau i fynegi safbwyntiau'r Senedd i Lywodraeth y DU, nid oes cyfle pellach i'r Senedd gael trafodaeth ystyrlon i roi ei barn ynghylch y Bil hwn a dylanwadu ar y canlyniad. Felly, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 15 Mawrth i beidio â chyfeirio'r

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) i graffu arno pan gafodd ei osod.

Rwyf wedi rhoi copi o'r llythyr hwn i holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a large 'J' followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon